Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

Cofia ddysgu byw...

Cynllun Datblygu Ysgol

2025-26

Crynodeb Cyhoeddedig

"Cofia Ddysgu Byw"

Cynllun Datblygu Ysgol: Crynodeb

Hunanwerthuso ysgol: Trosolwg

Cryfderau:

- Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy'n debyg i'r rhai a ddisgwylir neu'n uwch, am eu hoedran a'u cam datblygu. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn.
- Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn datblygu medrau gwrando cadarn ac mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus a chwrtais.
- Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt aeddfedu.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus.
- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau mathemateg.
- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn Effeithiol.
- Mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol.
- Mae medrau corfforol bron bob disgybl yn datblygu'n dda ac maent yn ymroi i weithgareddau corfforol yn frwdfrydig.
- Mae lles ac agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu yn gryfder nodedig yn yr Ysgol.
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw yn ddiogel wrth ddefnyddio'r we.
- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwydnwch cynyddol wrth wynebu profiadau dysgu a sefyllfaoedd newydd.
- Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau o fewn yr ysgol a'r gymuned.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus.
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog ac yn cynnig profiadau dysgu sy'n sbarduno dychymyg disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae staff yn ystyried syniadau'r disgyblion yn effeithiol fel rhan o'r broses gynllunio ac yn gweithio'n dda gyda nhw a'u rhieni i ddatblygu cwricwlwm sy'n ymgorffori'r natur gymunedol yr ysgol yn llawn.
- Mae'r berthynas waith gadarn rhwng staff a disgyblion yn gryf ac mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda.
- Mae athrawon yn darparu arweiniad clir yn ystod gweithgareddau dysgu. Maent yn cymell disgyblion yn fedrus.
- Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth ehangach, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg.

- Mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion am eu dysgu. Mewn dosbarthiadau lle mae hyn yn effeithiol, mae disgyblion yn gwella'u gwaith, ac o ganlyniad yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud y tro nesaf i wneud eu gwaith yn well.
- Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol gan wneud defnydd pwrpasol o asesiadau amrywiol. Trwy hyn, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo.
- Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel, hapus a gofalgar ac mae'r gydberthynas rhwng y disgyblion â'i gilydd, y disgyblion a'r staff yn gryfder.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn cefnogi anghenion lles, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn drefnus ac effeithiol.
- Un o gryfderau'r ysgol yw sut mae'r staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymreig.
- Mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol.
- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar er mwyn cynnig sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau craidd.
- Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cymryd rôl weithredol a phwrpasol ym mywyd a gwaith yr ysgol.
- Mae arweinwyr wedi datblygu gweithdrefnau priodol ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd gweithgarwch yr ysgol sy'n arwain at welliannau bwriadus.
- Mae'r ysgol yn rhan o bartneriaeth addysg Prifysgol Metropolitan Caerdydd, ac yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon.

Meysydd i'w datblygu:

- Gwella medrau Sillafu Saesneg disgyblion yn Cam Cynnydd 2 a 3.
- Gwella medrau ysgrifennu cynnar Cymraeg yn Cam Cynnydd 1 a 2.
- Sut gallwn ni greu amgylchedd – sy'n meithrin chwilfrydedd, annibyniaeth a meddwl ar y cyd parhaus ymhlith ein dysgwyr ieuengaf drwy brofiadau dysgu ystyrlon yn yr awyr agored ac o fewn y dosbarth?
- Datblygu arferion asesu ac adborth effeithiol yn gyson ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod gan ein dysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u bod yn hyderus i allu gwella eu dysgu yn annibynnol.

GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2024/2025	
Blaenoriaeth	**Gwerthusiad o'r cynnydd**
Rhannu'r arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol	• **Datblygiad Proffesiynol-** Ymweliad gan Cath Delve: **Taith trwy ystafell ddosbarth y Cyfnod Sylfaen.** Mae'r ymweliad wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth. Holl athrawon wedi mireinio ac addasu ardaloedd dosbarth yn dilyn yr ymweliad. • Awdit o adnoddau a chyfleoedd pwrpasol i staff ystyried a gwerthuso arefrion yn gyson. O ganlyniad, mae staff yn sicrhau eu bod yn darparu'r ardaloedd mwyaf pwrpasol ar gyfer disgyblion. • Staff y Cyfnod Sylfaen wedi adolygu arferion addysgeg ac o ganlyniad, mae gwell cydbwysedd o her a chymorth ar gyfer y plant. • Taith ddysgu yn dangos fod ".. disgyblion yn dechrau derbyn mwy o gyfleodd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu dysgu" • Mae craffu ar lyfrau yn dangos bod ".. defnydd mwy diweddar o gòd marcio newydd yn y rhan fwyaf o lyfrau yn dechrau cael effaith gadarnhaol"
Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n fwriadus ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion.	• Cysylltiad rhwng hunanwerthuso a Datblygiad Proffesiynol yn gadarn drwy systemau Rheoli Perfformiad a gwaith ymchwil ac ymholi. • Datblygiad proffesiynol ynghlwm yn uniongyrchol â chanfyddiadau hunanwerthuso ac o ganlyniad, mae effaith uniongyrchol ar gynnydd disgyblion mewn amrywiaeth o feusydd. • Arweinwyr ysgol yn arwain gweithgareddau hunanwerthuso fel eitem rheolaidd o gyfarfodydd adran. O ganlyniad, mae perchnogaeth ac atebolrwydd gan arweinwyr dros eu ardaloedd o gyfrifoldeb. • Mae gweithdrefnau olhrain cynnydd yr ysgol wedi datblygu. O ganlyniad, mae staff yn nodi anghenion penodol disgyblion yn gynnar, ac yn defnyddio eu gwybodaeth i drefnu rhaglenni ymyrraeth amrywiol. • Athrawon wedi cyflwyno eu gwaith ymchwil yw gilydd gan ffocysu ar 1. Beth oedd y broblem 2. Beth oedd y camau gweithredu . 3 Beth oedd yr effaith.O ganlyniad mae'r holl athrawon wedi cael blas ar arferion gorau eu gilydd ac yn gallu defnyddio'r startegaethau hyn i godi safonnau medrau a lles disgyblion yn eu dosbarth.

Parhau i feirinio a datblygu'r cynllunio a gweithdrefnau asesu a thracio cynnydd.	• Dadansoddiad data asesiadau personol yn dangos bod cynnydd cadarn ar draws yr asesiadau o flynyddoedd 3-6. **Disgyblion sy'n perfformio rhwng 70-89 wedi lleihau a disgyblion sy'n perfformio'n uwch na 130+ wedi cynyddu ers tymor yr Gwanwyn 2025.** Data disgyblion yn cael ei ddefnyddio i deilwra'r dysgu a'r addysgu yn unol â'u hanghenion unigol. • Athrawon yn deall ac yn defnyddio'r system graddedig ADY ac o ganlyniad, maent yn ymateb yn effeithiol i amrywiaith o anghenion dysgu ychwanegol ar lawr y dosbarth. • Emma Willmott (CSC) wedi gwneud sesiwn datblygiad proffesiynol â dirprwyon y clwstwr er mwyn targedu addysgeg effeithiol a ddifreintedd yn yr ysgolion. • Gweithgorau datblygu MDaPh wedi mireinio cynlluniau er mwyn sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn adeiladu'n systematig ac yn gydlynol. • HMS wedi drefnu ar gyfer Mis Medi 2025 er mwyn cyflwyno cynlluniau MDaPh.

BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025 /2026		
Blaenoriaeth 1	**Camau Gweithredu**	**Cymorth**
Gwella medrau Sillafu Saesneg disgyblion yn Cam Cynnydd 2 a 3. Gwella medrau ysgrifennu cynnar Cymraeg yn Cam Cynnydd 1 a 2.	• Staff i gael hyfforddiant perthnasol a rhoi cynllun Read Write • Creu gweledigaeth Sillafu gytûn, o bosib ar y cyd gydag ysgolion Clwstwr Glantaf • Gwerthuso a thracio cynnydd sillafu i bob disgybl a grwpiau o ddysgwyr ac ymateb yn ôl yr angen. • Datblygu camau ysgrifennu yn Cam Cynnydd 1 a 2.	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Cynllun sillafu newydd mewn lle ac hyfforddiant wedi cael ei roi i staff dysgu blynyddoddedd 3 - 6. • Bydd mwyafrif o'r staff yn hyderus wrth gynllunio sesiynau ffoneg pob yn ail wythnos.	**Cerrig Milltir Mawrth** • Mwyafrif o ddisgyblion Cam Cynnnydd 1 yn fwy annibynnol wrth ysgrifennu. • Bydd rhan fwyaf o'r staff yn hyderus wrth gynllunio sesiynau ffoneg pob yn ail wythnos. • Safonnau sillafu Saesneg yn gwella a disgyblion yn	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Bydd bron pob un o'r staff yn hyderus wrth gynllunio sesiynau ffoneg pob yn ail wythnos. • Cyfarfodydd cynnydd yn dangos bod ansawdd ysgrifennu saesneg disgyblion wedi

• Teulu'r ysgol (disgyblion, athrawon, rhieni a llywodraethwyr yn ymwybodol o weledigaeth sillafu yr ysgol ac yn hyderus i gefnogi disgyblion adref.	gwneud cynnydd da ar draws Cam Cynydd 2 a 3.	gwella oherwydd llai o gangymeriadau sillafu. • Pob athro yn Cam Cynydd 1 a 2 yn defnyddio y camau ysgrifennu er mwyn gwella ysgrifennu annibynnol disgyblion.
Blaenoriaeth 2	**Camau Gweithredu**	**Cymorth**
Sut gallwn ni greu amgylchedd – sy'n meithrin chwilfrydedd, annibyniaeth a meddwl ar y cyd parhaus ymhlith ein dysgwyr ieuengaf drwy brofiadau dysgu ystyrlon yn yr awyr agored ac o fewn y dosbarth?	• Hyfforddiant staff gyda Cath Delve Diwrnod Un - Diwrnod 'darganfod' i weld beth/ble yw'r anghysondebau. Diwrnod 2 - Gweithio gyda'r athrawon ar arsylwadau, cynllunio ar y funud a sicrhau cynnydd pwrpasol yn yr ardaloedd barhaus. •	CSCJES Llywodraethwyr i fynychu gweithgareddau monitro.
Cerrig Milltir Rhagfyr • Mae cynllunio mwyafrif o athrawon yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth. • Mae mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar berchnogaeth a mwy o benderfyniad yn y ffordd maen nhw'n mynd ati i gyflwyno eu gwaith. • Mae mwyafrif o disgybionl yn cymryd rhan weithredol mewn dewis adnoddau ac yn eu defnyddio'n dda.	**Cerrig Milltir Mawrth** • Mae cynllunio rhan fwyaf o athrawon yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth. • Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar berchnogaeth a mwy o benderfyniad yn y ffordd maen nhw'n mynd ati i gyflwyno eu gwaith. • Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn dewis adnoddau ac yn eu defnyddio'n dda. • Mae bron pob disgybl yn llai dibynnol ar daflenni gwaith a thempladau ac yn gwneud mwy o ddewis am sut a beth maen nhw'n dysgu.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Mae cynllunio bron pob athrawo yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth. • Mae bron pob ddisgybl yn meddu ar berchnogaeth a mwy o benderfyniad yn y ffordd maen nhw'n mynd ati i gyflwyno eu gwaith. • Mae bron pob disgybl yn cymryd rhan weithredol mewn dewis adnoddau ac yn eu defnyddio'n dda. • Mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'u gwaith, yn annibynnol

	• Gall rhan fwyaf o ddisgyblion adnabod eu cryfderau a'u meysydd ar gyfer gwelliant.	ac yn gyfrifol, ac yn datblygu sgiliau hanfodol fel datrys problemau, trefnu, cymhelliant, a myfyrdod. • Gall bron pob o ddisgyblion adnabod eu cryfderau a'u meysydd ar gyfer gwelliant. • Mae bron pob disgybl yn gallu esbonio sut maen nhw'n mynd i wella.
Blaenoriaeth 3	**Camau Gweithredu**	**Cymorth**
Datblygu arferion asesu ac adborth effeithiol yn gyson ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod gan ein dysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u bod yn hyderus i allu gwella eu dysgu yn annibynnol.	• HMS 1.9.25 cyflwyniad; dangos a thrafod enghreifftiau da o 2024 – 202 • Datblygu dealltwriaeth am gwestiynu caeedig ac agored • Cysoni dull adborth ar draws yr Ysgol • Athrawon yn sefydlu hinsawdd / diwylliant dosbarth ar gyfer asesu ffurfiannol drwy weithredu strategaethau a gytunwyd arnynt	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Mae mwyafrif o ddysgwr, gan gynnwys grwpiau amrywiol, yn deall pwrpas eu dysgu, yn gwybod ble maent arni o ran cynnydd, ac yn deall y camau sydd angen eu cymryd i wella. Mae dysgwyr yn medru gwerthuso eu dysgu eu hunain ac eraill. • Mae mwyafrif o athrawon yn rhoi adborth sy'n cefnogi	**Cerrig Milltir Mawrth** • Mae rhan fwyaf o ddysgwr, gan gynnwys grwpiau amrywiol, yn deall pwrpas eu dysgu, yn gwybod ble maent arni o ran cynnydd, ac yn deall y camau sydd angen eu cymryd i wella. Mae dysgwyr yn medru gwerthuso eu dysgu eu hunain ac eraill. • Mae dulliau systematig a phwrpasol i gyd-greu bwriadau dysgu clir gyda dysgwyr, sydd yn eu galluogi i fod yn rhan weithgar wrth osod nodau dysgu	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Mae bron pob o ddysgwr, gan gynnwys grwpiau amrywiol, yn deall pwrpas eu dysgu, yn gwybod ble maent arni o ran cynnydd, ac yn deall y camau sydd angen eu cymryd i wella. Mae dysgwyr yn medru gwerthuso eu dysgu eu hunain ac eraill. • Mae bron pob athro yn rhoi adborth sy'n

cynnydd yn uniongyrchol, gyda dull strwythuredig ac effeithiol i helpu dysgwyr i adnabod llwyddiant a meysydd i'w gwella. • Mae mwyafrif o aelodau o staff yn cwestiynu agored ar draws yr ysgol i annog dysgwyr i ddadansoddi'n ddyfnach ac i ymchwilio. Mae llawer o ddysgwyr yn medru gwneud penderfyniadau annibynnol wrth gywiro a gwella ansawdd eu dysgu	• Mae rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth sy'n cefnogi cynnydd yn uniongyrchol, gyda dull strwythuredig ac effeithiol i helpu dysgwyr i adnabod llwyddiant a meysydd i'w gwella • Mae rhan fwyaf o aelodau o staff yn cwestiynu agored ar draws yr ysgol i annog dysgwyr i ddadansoddi'n ddyfnach ac i ymchwilio. Mae llawer o ddysgwyr yn medru gwneud penderfyniadau annibynnol wrth gywiro a gwella ansawdd eu dysgu. • Mae y rhan fwyaf o athrawon yn modelu technegau cwestiynu effeithiol sy'n ysbrydoli dysgwyr i gwestiynu ac ymgysylltu â syniadau ei gilydd, gan wella sgiliau meddwl yn feirniadol	cefnogi cynnydd yn uniongyrchol, gyda dull strwythuredig ac effeithiol i helpu dysgwyr i adnabod llwyddiant a meysydd i'w gwella. • Mae bron pob aelod o staff yn cwestiynu agored ar draws yr ysgol i annog dysgwyr i ddadansoddi'n ddyfnach ac i ymchwilio. Mae llawer o ddysgwyr yn medru gwneud penderfyniadau annibynnol wrth gywiro a gwella ansawdd eu dysgu